You are not viewing the production site.



# Ar ein Liwt ein Hunain – Ymchwiliadau Estynedig – Ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd

## Cyflwyniad

Rydym yn gallu cynnal dau fath o ymchwiliad ar ein liwt ein hunain:

- Estyniad i ymchwiliad presennol i'ch cwyn: neu
- Ymchwiliad ehangach annibynnol nad yw'n ymwneud ag unigolyn penodol neu gŵyn a gafwyd

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut gallwn ddefnyddio ein pwerau estynedig i gynnal ymchwiliad ar ein liwt ein hunain o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am Ymchwiliadau ar ein Liwt ein Hunain estynedig ar y dudalen 'Ymchwiliadau Ar ein Liwt ein Hunain', o dan y tab 'Amdanom ni'.

You are not viewing the production site.

Mae ein meini prawf (ar gael ar y dudalen 'Ymchwiliadau Ar ein Liwt ein Hunain', o dan y tab 'Amdanom ni') ar gyfer ymestyn ymchwiliad yn dweud, os ydyn ni wedi cychwyn ymchwiliad i gŵyn yn barod, ac ein bod yn dymuno cychwyn ymchwiliad ar ein liwt ein hunain i faterion sydd â chysylltiad sylweddol â'r mater sydd eisoes yn cael ei ymchwilio, byddwn yn dechrau ymchwiliad estynedig ar ein liwt ein hunain.

Gellir cynnal ymchwiliad estynedig os oes gennym amheuaeth resymol bod cwyn am:

- Un elfen o wasanaeth, a/neu
- Un darparwr gwasanaeth

Gyda chysylltiad agos â:

- Achos posibl arall o gamweinyddu systemig (eang) neu o fethiant gwasanaeth, a/neu
- Darparwr gwasanaeth cysylltiedig arall

A:

- Mewn achos iechyd neu ofal cymdeithasol – bod anghyfiawnder systematig wedi bodoli o ganlyniad i'r crebwyll proffesiynol a ddefnyddiwyd yn yr achos hwnnw
- Rhaid bod dechrau ymchwiliad ym mudd y cyhoedd.

Dyma rai enghreifftiau o faterion a allai fod yn destun ymchwiliad estynedig:

- methiant neu ddigwyddiad oedd ddim yn achos un tro ond sydd wedi digwydd o ganlyniad i fethiant ehangach yng

You are not viewing the production site.

- methiant yn nulliau neu weithdrefnau'r corff cyhoeddus a allai achosi anghyfiawnder i nifer o bobl.
- methiant ehangach o ran dull neu weithdrefn sydd i'w weld yn cael ei dderbyn neu ei gymeradwyo gan y corff cyhoeddus.

Mae ymchwiliadau i faterion o'r fath yn debygol o fod o 'fudd i'r cyhoedd' os ydyn nhw:

- O bryder sylweddol i'r cyhoedd a neu'n fater sydd eisoes o bryder i ni
- Yn ymwneud â chamddefnydd grym gan gorff cyhoeddus yn erbyn unigolyn
- os ydy bregusrwydd neu amgylchiadau arbennig y person sy'n gwneud y gŵyn neu grŵp o achwynwyr yn awgrymu y byddai ein hymyrraeth o fudd iddyn nhw.

Efallai y byddwn eisiau ymestyn neu fynd ag ymchwiliad byw i gyfeiriad cysylltiedig arall gan archwilio cofnodion, cyngor proffesiynol a thystiolaeth arall sydd yn nodi pryderon y tu hwnt i'r rheini yn y gŵyn a dderbyniwyd, sy'n bodloni'r meini prawf yn ôl pob tebyg.

Os byddwn o'r farn bod angen ymchwiliad estynedig ar ein liwt ein hunain mewn perthynas â'ch cwyn, rhoddir gwybod i chi a'r corff cyhoeddus dan sylw, a bydd cyfle i chi wneud sylwadau a/neu gyflwyno tystiolaeth fel rhan o'r broses ymchwilio.

Pan fyddwn wedi cychwyn ymchwiliad estynedig, bydd yn cael ei reoli yn unol â'n prosesau trin cwynion presennol.

You are not viewing the production site.

- Ymestyn cwyn nad yw’n destun ymchwiliad
- Ymestyn ymchwiliad i ystyried materion na fyddai’n cwrdd ag ein hawdurdodaeth o ran ymchwilio
- Ymestyn ymchwiliad sydd ddim yn diwallu ein meini prawf o ran gweithredu ar ein liwt ein hunain

## Materion i'w cadw mewn cof

Os ydy’r ymchwiliad estynedig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a bod y rheoliadau ‘Gweithio i Wella’ yn berthnasol, rhoddir cyfle i’r achwynydd fwrw ymlaen â’r mater o dan y rheoliadau hyn fel dewis arall.

## Cysylltu â ni

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch chi am ein gwasanaeth, cysylltwch â ni ar 0300 790 0203.